Senedd Cymru | Welsh Parliament

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical | Services for care experienced children: exploring radical reform

Ymateb gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Evidence from Care Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Annwyl Jayne Bryant AS,

**Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ionawr 2023 yn gwahodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i wasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal.

Rydym wedi darparu ymatebion i'r ceisiadau yn yr atodiad i'ch llythyr isod, gan wneud sylwadau, lle rydym wedi gallu gwneud hynny, ar y tair agwedd ar yr ymchwiliad. Rydym hefyd wedi amlinellu blaenoriaethau ar gyfer diwygio radical i wasanaethau ar gyfer lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel yn unol â'r cais yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**(1) <u>Gwasanaethau plant a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol:</u>**

***Y graddau y gall gwasanaethau plant awdurdodau lleol fodloni eu gofynion deddfwriaethol ar hyn o bryd, gan wneud sylwadau penodol ar wahân ar bob un o'r tair agwedd ar ein hymchwiliad: cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal.***

Rydym wedi gweld enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus ar lefel strategol a lefel ranbarthol er mwyn hyrwyddo'r agenda atal gyda phlant a theuluoedd yn elwa o amrywiaeth o wasanaethau helpu ac atal cynnar sydd wedi'u sefydlu'n gadarn. Fodd bynnag, mae llai a llai o adnoddau ar gael i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau help cynnar. Mae hyn i'w briodoli i effaith gyfunol y pandemig a phwysau cyllidebol gyda galw cynyddol ac anghenion cymhleth plant a theuluoedd. Mae hyn yn peri risg y bydd angen cymorth mwy dwys i helpu plant a theuluoedd.

Mae angen meithrin dealltwriaeth well o effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol ymyrraeth gynnar yn ogystal ag atgyfnerthu trefniadau cam i fyny a cham i lawr rhwng gwasanaethau

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Merthyr Tudful
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busness Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 7900 126
ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Merthyr Tydfil Office
Welsh Government
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau gofal a reolir. Byddai awdurdodau lleol yn elwa o fod yn fwy agored am yr heriau y maent yn eu hwynebu ac o rannu gwersi a ddysgwyd yn fwy effeithiol â'i gilydd. Mae angen dadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar blant yn dechrau cael gofal yn well; effeithiolrwydd gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal; yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n gwneud gwahaniaeth a fyddai'n helpu i gynllunio gwasanaethau cymorth wedi'u targedu effeithiol ar gyfer plant a theuluoedd cyn gynted â phosibl.

Mae darparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i deuluoedd sy'n gofyn am gymorth i'w hatal rhag chwalu yn faes sydd angen ei atgyfnerthu. Hefyd, prin yw'r ôl-ofal a'r cymorth sydd ar gael pan fydd trefniadau mabwysiadu yn chwalu, gan greu profiad negyddol i blant.

Mae gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn ymdrechu i gyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol ond mae galw cynyddol a chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn rhoi pwysau ar wasanaethau plant ac yn peri risg na chaiff cyfrifoldebau statudol eu cyflawni. Rydym yn gweld llawer o arferion cadarnhaol, gyda llais y plentyn wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau a phlant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau a'u hadolygiadau. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu cyfleoedd i geisio barn plant yn gyson a'i chofnodi. Er gwaethaf rhai arferion da, rydym hefyd wedi gweld anghysondeb o ran pa mor aml y mae Swyddogion Adolygu Diogelu Annibynnol yn cadw mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal ac yn ceisio eu barn. Gallai craffu ar gynlluniau gofal plant a phobl ifanc a'u herio'n fwy yn ystod y broses adolygu gan swyddogion adolygu annibynnol helpu i sicrhau'r gwelliant hwn.

Nododd ein hadolygiad cenedlaethol o blant sydd wedi bod mewn gofal yn 2019 fod awdurdodau lleol yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth i gyfeirio adnoddau at leihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal, gan gynnwys plant a leolir y tu allan i ardal awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oedd digon o adnoddau yn cael eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau ymatebol i'r teuluoedd hynny a oedd mewn perygl o ddod yn rhan o systemau atal plant statudol ac achosion cyfreithiol neu a oedd eisoes yn rhan ohonynt.

Gall fod yn anodd i blant sy'n gadael gofal ddod o hyd i lety diogel, priodol. Yn aml, gall llety gael ei neilltuo i wasanaethau plant fel eu cyfrifoldeb ac mae angen mwy o atebolrwydd amlasiantaethol. Nid oes fawr ddim dewis yn aml ac er bod rhai awdurdodau lleol yn rhoi'r flaenoriaeth i'r rhai sy'n gadael gofal i gael eu hychwanegu at y gofrestr dai, nid yw awdurdodau lleol eraill yn gwneud hyn yn ddigonol. Er gwaethaf yr anawsterau y mae pobl ifanc wedi'u hwynebu mewn bywyd, mae'n galonogol gweld rhai, gyda chymorth cynorthwywyr personol er enghraifft, yn mynd ymlaen i feithrin sgiliau newydd i fyw'n annibynnol, manteisio ar addysg uwch a chael swyddi.

Mae unigolion sy'n gadael gofal yn rhoi gwerth mawr ar gymorth gan gynghorwyr personol ond prin yw'r adnoddau yn aml. Mae angen adolygu rôl y gwasanaeth cynghorwyr personol er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau unigrwydd a bod yn ynysig ymhlith plant a phobl ifanc wedi bod mewn gofal a diwallu eu hanghenion llesiant. Mae angen rhoi sylw i adolygu cynlluniau llwybrau gyda mwy o eglurder a phroffil yn y broses adolygu. Dylai hyn gael ei arwain gan swyddog adolygu annibynnol (IRO) neu rôl gyfatebol, ond mae hyn yn anghyson. Felly, nid yw'r broses bontio, sy'n ymdrin â'r holl heriau sy'n gysylltiedig â symud tuag at fyw'n annibynnol, bob amser yn cael y sylw sydd ei angen arni.

**(2) <u>Y gweithlu:</u>**

***Cadernid gweithlu gwasanaethau plant awdurdodau lleol, gan sôn yn benodol am eich tystiolaeth am y pwysau sydd ar staff, trosiant staff, y sefyllfa ddiweddaraf o ran priodoldeb llwythi achosion, gan wneud sylwadau penodol ar wahân ar bob un o'r tair agwedd ar ein hymchwiliad: cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal.***

Mae'r gweithlu yn broblem sylfaenol a pharhaus o ran darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i blant a theuluoedd. Mae'r pwysau o ran recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol yn sylweddol. Mae recriwtio staff i rolau gwaith cymdeithasol gyda phlant wedi bod yn arbennig o heriol.

Mae diffygion o ran y gweithlu sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol ac absenoldeb gweithwyr o'r fath wedi arwain at golli staff profiadol a mwy o ddibyniaeth ar staff newydd gymhwyso a staff asiantaeth. Rydym yn pryderu'n benodol am y defnydd o dimau ‘a reolir’ lle mae pob aelod o'r staff yn weithwyr asiantaeth a all gael effaith negyddol pan ddaw'r contract i ben, yn enwedig o ran parhad ar gyfer plant a theuluoedd, er y gall ddod â rhywfaint o sefydlogrwydd hefyd. Rydym hefyd yn pryderu am ddiffyg profiad rhai gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â diogelu plant. At hynny, mae'r defnydd o weithwyr asiantaeth yn cael effaith andwyol ar gyllidebau awdurdodau lleol.

Mae'n anodd gwneud sylwadau ar briodoldeb llwythi achosion yn gyffredinol am nad oes nifer sefydlog y gellir meincnodi yn ei erbyn am fod hyn yn dibynnu ar rôl benodol y tîm ac anghenion plant unigol yn llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol. Mae cynnal trosolwg effeithiol o lwythi gwaith, llif gwaith ac ansawdd ymarfer a sicrhau bod gweithlu digonol, cymwysedig a galluog i gyflawni dyletswyddau statudol yn dal i fod yn her. Er enghraifft, mewn adolygiad diweddar o berfformiad mewn awdurdod lleol, rhannodd ymarferwyr bryderon ynghylch effaith llwyth achos mawr, oherwydd prinder staff, ar eu gallu i gyflawni eu gwaith yn effeithiol. Rydym wedi pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod rheolwyr yn sicrhau bod llwythi achosion yn hydrin, a bod gan ymarferwyr ddigon o adnoddau i gwblhau eu gwaith ac rydym yn gweld tystiolaeth o fesurau er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Mae angen gwneud y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn fwy deniadol, gyda mwy o gydnabyddiaeth i gymhlethdod y gwaith a wneir gan weithwyr cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol a'u cadw er mwyn sicrhau gwell parhad i blant er mwyn iddynt allu meithrin cydberthnasau sefydlog. Byddai hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod gan weithwyr cymdeithasol lwythi gwaith hydrin.

Mae awdurdodau lleol yn ymrwymedig i hyrwyddo llesiant y gweithlu, gyda strategaethau yn canolbwyntio ar recriwtio, cadw a chefnogi staff. Mae enghreifftiau yn cynnwys ‘tyfwch eich rhai eich hun’ drwy nawdd neu gymwysterau ffurfiol. Mae ymarferwyr wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cymorth rheolwyr a chydweithwyr. Mae rheolwyr a staff wedi dangos y gallant addasu i amgylchiadau sy'n newid. Er eu bod yn teimlo'n flinedig, mae'r staff yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi ac mae morâl yn dda, ar y cyfan. Dangosodd ein hadolygiad *Gadewch imi Ffynnu* (2021) fod gennym weithlu ymroddedig ac ymrwymedig lle y nododd y mwyafrif o'r ymarferwyr a arolygwyd eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion. Nodwyd ymdrechion awdurdodau lleol i gefnogi llesiant y staff. Rydym wedi parhau i weld tystiolaeth o ymrwymiad tuag at lesiant staff yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol yn y gweithgarwch adolygu perfformiad a gynhaliwyd gennym yn ddiweddar.

**(3) <u>Lleoliadau:</u>**

***Yr ansawdd, y gofal a'r argaeledd ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau maeth yng Nghymru. Cartrefi gofal anghofrestredig yng Nghymru, faint o ddefnydd a wneir ohonynt ac i ba raddau rydych yn pryderu ynghylch y defnydd a wneir ohonynt.***

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu dyletswyddau o ran digonolrwydd a dod o hyd i leoliadau addas er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y dewis o leoliadau a natur barhaol a sefydlogrwydd lleoliadau ac, felly, ar ganlyniadau i blant. Mae'r gallu i sicrhau'r lleoliad cywir ar yr adeg gywir i blant yn broblem gynyddol i awdurdodau lleol.

Rydym yn cydnabod y cymhlethdod cynyddol a nifer cynyddol y plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt. Mae hyn yn cynnwys plant y mae angen cymorth arnynt yn ifancach oherwydd effaith emosiynol ac ymddygiadol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'n anodd dod o hyd i gartrefi i blant mewn gofal preswyl a gofal maeth ar gyfer y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae'n rhaid i fynediad at gymorth therapiwtig i blant fod yn gyfrifoldeb amlasiantaethol, gan gynnwys cyllid. Mae mynediad cyfyngedig at gymorth iechyd meddwl amserol yn aml yn broblem fawr mewn achosion lle mae lleoliadau yn chwalu.

Nododd ein hadolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i blant (2018-19) fod llawer o blant mewn cartrefi gofal yn cael gofal a chymorth o ansawdd da. Lle mae gwasanaethau yn defnyddio modelau gofal cydnabyddedig a chyfannol sy'n cynnwys therapi ac addysg y mae plant yn cael y canlyniadau gorau a gwnaethom argymell y dylai darparwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaeth drwy fodel gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystyried datblygu dull mwy cydlynol o ddarparu gofal a chymorth i blant.

Mae prinder gofalwyr maeth, yn arbennig i blant hŷn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i blant dderbyn gofal mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn effeithio ar ddigonolrwydd lleoliadau mewn cartrefi gofal, fel y trafodir isod. Mae'r MyST (Fy Nhîm Cymorth), sef model dull partneriaeth amlasiantaethol sy'n gweithio gyda gofalwyr maeth i atal lleoliadau rhag chwalu a helpu plant sy'n derbyn gofal i aros yn eu cymunedau lleol, yn enghraifft o arfer cadarnhaol. Mae recriwtio, datblygu a chefnogi gofalwyr maeth i'w galluogi i ymgymryd â rôl fwyfwy proffesiynol a heriol, yn hanfodol.

Er y gall fod digon o gapasiti o ran nifer y lleoliadau mewn cartrefi gofal cofrestredig yng Nghymru, nid yw hyn yn golygu y gall gwasanaeth ddiwallu anghenion plant unigol ochr yn ochr â'r rhai sydd eisoes yn byw yn y cartref. O ganlyniad, mae AGC wedi gweld nifer cynyddol o blant yn byw mewn gwasanaethau anghofrestredig. Mae gwasanaethau o'r fath yn anghyfreithlon ac nid oes ganddynt y mesurau diogelu ar waith sydd gan wasanaethau cofrestredig. Yn aml mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, gan adleoli eu staff eu hunain iddynt neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth. Mae llety yn cynnwys llety AirBnB sydd, mewn rhai achosion, wedi golygu bod plant wedi gorfod symud sawl gwaith o'r naill eiddo i'r llall. Ar adegau, mae'r lleoliadau hyn wedi bod y tu allan i ardal leol y plentyn ac mae llawer o leoliadau na allant ddiwallu eu hanghenion therapiwtig a/neu ofal. Ym mhob achos mae AGC yn ystyried a yw'r trothwy ar gyfer cynnal

ymchwiliad troseddol ac erlyn wedi'i fodloni gan gydnabod, ar yr un pryd, ddyletswydd yr awdurdod lleol i ofalu am y plentyn.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros symud plentyn i wasanaeth anghofrestredig yw bod lleoliad neu deulu wedi chwalu a bydd y risgiau posibl i'r plant hyn bob amser yn un o'n prif flaenoriaethau. Rydym yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol wedi ceisio mynd i'r afael â hyn, er enghraifft drwy ddatblygu cyfleusterau cartref i grwpiau bach er mwyn adlewyrchu bywyd teuluol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa bresennol yn dangos nad oes digon o amrywiaeth na dewis o leoliadau ar gael er mwyn diwallu anghenion plant.

Mae diffyg gofal preswyl lleol priodol, gan gynnwys seibiannau byr, hefyd yn faes sy'n peri pryder ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd y gwnaethom nodi ei fod yn faes i'w wella fel mater o flaenoriaeth yn ein hadolygiad cenedlaethol *'Gadewch imi Ffynnu'*.

**(4) <u>Gwasanaethau Eirioli:</u>**

***Gan wneud sylwadau penodol ac ar wahân ar bob un o'r tair agwedd ar ein hymchwiliad: cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal: gan gynnwys gwasanaethau eirioli i rieni, gwasanaethau eirioli ar ffiniau gofal a gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol. Unrhyw sylwadau sydd gennych ar argaeledd gwasanaethau eirioli sy'n ymweld â lleoliadau preswyl.***

Mae Adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd 2021/22; Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol AGC o Wiriadau Sicrwydd (2021); ac Adolygiad *'Gadewch imi Ffynnu'* AGC, wedi tynnu sylw at ba mor bwysig ydyw bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael yn gyson i blant a phobl ifanc. Nodwyd bod angen i ddarpariaeth gwasanaethau eirioli i blant sy'n derbyn gofal, plant anabl a'u teuluoedd gael ei hatgyfnerthu a'i hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys parhau i gynnig gwasanaethau eirioli wrth i blant barhau ar eu taith drwy'r system ofal.

Nododd ein hadroddiad *'Gadewch imi Ffynnu'* fod angen atgyfnerthu cyfleoedd i ddatblygu hunaneiriolaeth, yn ogystal â gwella dealltwriaeth ymarferwyr o werth a swyddogaeth gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol.

Yn ystod ein hadolygiad o gartrefi gofal i blant, gwnaethom siarad â phlant a ddywedodd wrthym eu bod yn ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys sut i gwyno a gwelsom rai enghreifftiau da lle roedd plant wedi cael cymorth i wneud cwyn a cheisio cymorth gan wasanaethau eirioli. Gwelsom, mewn rhai gwasanaethau, fod y trefniadau ar gyfer darparu cymorth eiriolaeth i rai plant yn dda, gydag ymweliadau rheolaidd gan Tros Gynnal a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Fodd bynnag, ni chafodd nifer o blant gymorth eiriolaeth am sawl rheswm, gan gynnwys y ffaith nad oeddent yn ymwybodol o'r trefniadau eiriolaeth; eu bod wedi gwrthod cymorth; neu nad oeddent yn siŵr pa drefniadau oedd ar waith. Gwnaethom argymell y dylai darparwyr ac awdurdodau lleoli sicrhau bod trefniadau eiriolaeth yn cael eu hyrwyddo'n dda er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn fynediad cyfartal at eiriolaeth, gan gynnwys plant anabl.

Yn ystod ein gweithgarwch adolygu perfformiad diweddar, gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ymarferwyr yn ystyried yr angen am eiriolaeth a phobl yn cael eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau eirioli. Gwelsom hefyd awdurdodau lleol yn mynd ati i hyrwyddo'r ddarpariaeth eirioli ac enghreifftiau o blant a'u teuluoedd yn elwa o gymorth eirioli anffurfiol. Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod cynnig o eiriolaeth yn cael ei

gofnodi yng nghofnodion gofal cymdeithasol plentyn er mwyn i'r awdurdod lleol allu dangos yn glir ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

**(5) <u>Pryderon a gorfodi:</u>**

***Y wybodaeth ddiweddaraf am lefel a natur pryderon a godwyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel y bo'n berthnasol i bob un o'r tair agwedd ar ein hymchwiliad ac unrhyw dueddiadau yr hoffech dynnu ein sylw atynt yn hyn o beth. Unrhyw weithgarwch gorfodi sy'n berthnasol i'n hymchwiliad, yn eich barn chi.***

Mae nifer y pryderon a godwyd gyda ni wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, cofnodwyd cynnydd o 23%, a oedd yn cynnwys cynnydd sylweddol iawn yn nifer y pryderon a godwyd am gartrefi gofal i blant (44%). Dengys dadansoddiad diweddar o bryderon a gafwyd am awdurdodau lleol fod y rhan fwyaf yn ymwneud â gwasanaethau plant, gyda themâu allweddol yn ymwneud â diogelu, hawliau dynol ac ansawdd y gwasanaethau a gafwyd.

Rydym wedi cael 173 o bryderon yn ystod y chwe mis diwethaf sy'n ymwneud â chartrefi gofal i blant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel. Mae pobl sy'n cysylltu â ni yn pryderu'n bennaf ynghylch gofal, cymorth, arweinyddiaeth a rheolaeth mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y pryderon a godwyd am lefelau staffio mewn gwasanaethau a nifer y pryderon a godwyd gan staff. Pan gaiff pryderon eu codi gyda ni byddwn naill ai'n trafod y mater â'r Unigolyn Cyfrifol a/neu'n cynnal arolygiad, yn dibynnu ar natur y pryder a'n gwybodaeth am y gwasanaeth.

O ran ansawdd gwasanaethau rheoleiddiedig, rydym yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cofrestredig i blant yn gweithredu yn unol â gofynion rheoleiddiol neu, lle mae angen gwneud gwelliannau, bydd hyn ar lefel y tybir ei bod yn isel neu'n gymedrol nad yw'n peri risg sylweddol y caiff plant eu niweidio neu na fyddant yn cyflawni eu canlyniadau personol. Os byddwn yn nodi pryderon difrifol, byddwn yn cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Ar hyn o bryd, mae gan 108 o gartrefi gofal cofrestredig (o 269) ac un gwasanaeth maethu cofrestredig (o 22), hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth agored lle rydym wedi nodi achosion o fethu â bodloni gofynion rheoleiddiol. Caiff y rhain eu monitro'n ofalus yn unol â'n proses gwella a gorfodi.

**(6) <u>Rhianta corfforaethol:</u>**

***Eich barn ar lefel y cymorth gan asiantaethau ac eithrio'r rhai rydych yn eu harolygu o ran cefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal. Er enghraifft, nodwn y sylwadau yn eich Adroddiad Blynyddol fod AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) wedi nodi nad oes digon o gymorth iechyd meddwl ar gael i blant a bod camddealltwriaeth a diffyg cyfathrebu clir ynghylch rolau rhwng Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r awdurdod lleol.***

Yn ein barn ni, y gwasanaethau plant sy'n perfformio orau mewn awdurdodau lleol yw'r rhai lle mae dealltwriaeth a pherchenogaeth gorfforaethol o gyfrifoldebau er mwyn sicrhau bod plant yn cael y canlyniadau gorau posibl.

Mae sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant y mae angen gofal a chymorth arnynt yn gyfrifoldeb amlasiantaethol. Yn rhy aml o lawer, mae gwasanaethau plant awdurdodau lleol

yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu dyletswyddau statudol oherwydd diffyg cymorth gan bartneriaid allweddol. Nid oes unman lle mae hyn yn fwy pwysig nag ym maes diogelu ac amddiffyn plant. Byddwn yn llunio adroddiad blynyddol ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella sy'n deillio o'n rhaglen waith bresennol ar Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant yn 2024.

Mae gwaith corfforaethol ac amlasiantaethol hefyd yn hanfodol ar gyfer cymorth atal ac ymyrryd yn gynnar ac mae'n faes sydd angen ei atgyfnerthu. Ni all gwasanaethau plant, ar eu pen eu hunain, ddarparu cymorth effeithiol na'r ymyriadau amrywiol iawn sydd eu hangen ar blant a theuluoedd. Rydym wedi gweld rhai awdurdodau lleol yn datblygu eu gwasanaethau therapiwtig eu hunain, yn enwedig i blant sy'n derbyn gofal, er mwyn sicrhau y gallant gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hyn wedi cynnwys cyflogi seicolegwyr a therapyddion ymddygiadol er mwyn cefnogi prosesau fformiwleiddio ac arferion sy'n ystyriol o drawma mewn timau.

Nododd ein rhaglen o wiriadau sicrwydd a gynhaliwyd yn ystod 2020/21 ac adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2021/22 nad oes digon o gymorth iechyd meddwl ar gael i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r galw am gymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae *Plant a Phobl ifanc: A oes Argyfwng Iechyd Meddwl* (Mai 2022) (Plant a phobl ifanc: a oes argyfwng iechyd meddwl? (senedd.cymru)) yn tynnu sylw at effaith anghymesur y pandemig ar les emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae llawer o blant a phobl ifanc wedi profi straen, gorbryder ac unigrwydd gyda mwy o ffocws ar ymateb yn hytrach nag atal. Serch hynny, mae cael gafael ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn parhau i fod yn her gyda throthwyon uchel a rhestrau aros hir ar gyfer cymorth a ddilynir gan ymyriadau byr ac yna cymorth yn cael ei dynnu'n ôl ar adegau pan fo'r risgiau i ddiogelwch y plentyn yn uchel.

**Blaenoriaethau ar gyfer diwygio gwasanaethau yn radical er mwyn lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel**

Rydym yn cynnig y blaenoriaethau canlynol i'w hystyried, rydym wedi dewis canolbwyntio arnynt cyn diwygio'r system ofal

**Cyn gofal**

1. Mae gwasanaethau a ddarperir i blant a theuluoedd yn gofyn am ddull system gyfan o ymyriadau therapiwtig i deuluoedd, a ddylai fod yn seiliedig ar gymorth amlddisgyblaethol. Dylid gwneud newidiadau er mwyn sicrhau eglurder ynglŷn ag atebolrwydd, gyda chyfrifoldebau statudol i arwain gwaith amlasiantaethol. Mae angen i hyn gael ei lywio gan ddeddfwriaeth oherwydd, hyd yma, mae pa mor dda y mae gwasanaethau yn cydweithio yn amrywio ac yn dibynnu, yn aml, ar gydberthnasau lleol.
2. Dylai fod ymgyrch genedlaethol (yng Nghymru) i hyrwyddo rhianta therapiwtig, y dylai'r holl waith ymyrryd yn gynnar/atal fod yn seiliedig arno. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhagnodol ond, yn hytrach, dylid rhoi arweiniad a sicrwydd bod pob gwasanaeth ymyrryd yn gynnar yn canolbwyntio ar drawma. Os na fydd sail ddeddfwriaethol gadarn i hyn, bydd gormod o gyfle i wasanaethau ddewis peidio â mabwysiadu'r dull hwn o weithredu. Cynhaliodd yr Is-adran Polisi Plant a Theuluoedd ymgyrch rianta 'rhowch amser iddo'. Efallai y byddai'n fuddiol myfyrio ar werthusiad o'r ymgyrch honno. Byddai'n fuddiol

adolygu modelau arfer da a ddefnyddir ar gam ymyrryd yn gynnar. Mae angen canolbwyntio o'r newydd ar dargedu lefelau uchel o amddifadedd.

3. Dylid ystyried TLODI ym mhob polisi – gwyddom fod plant yn llawer mwy tebygol o dderbyn gofal os ydynt yn byw mewn ardaloedd difreintiedig iawn (mae gennym ddata sy'n ymwneud ag ardaloedd cynnyrch ehangach a ddylai gael eu defnyddio'n well). Dylem sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu'n fwy drwy ddefnyddio data o'r fath. Dylid ailbwysleisio'r ffordd orau o wneud hyn, gan adeiladu ar Dechrau'n Deg (a mentrau eraill).

**Mewn gofal**

1. Dylid mynd i'r afael â phroblemau o ran digonolrwydd ar fyrder
2. Sicrhewch fod gan bob gwasanaeth maethu a phreswyl ddull gweithredu therapiwtig clir er mwyn darparu gofal magwrus cyson, a ddylai fod ar gael i blant sydd wedi bod mewn gofal drwy gydol eu plentyndod.
3. Dylid cyflymu'r broses o ddatblygu model gofal amlasiantaethol a phroffesiynol sy'n canolbwyntio ar therapi, addysg a gofal, er mwyn rheoli anghenion a risgiau cymhleth ac osgoi'r angen i blant dderbyn gofal.

**Ar ôl gofal**

1. Mae angen cynnig mwy o opsiynau o ran llety a gwella argaeledd llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal
2. Ystyriwch sut y gellid ymestyn rôl cynghorydd personol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael y cymorth gorau posibl

Efallai y bydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor nodi bod AGC yn gwneud y gwaith canlynol ar hyn o bryd, a fydd yn cyfrannu at feithrin cyd-ddealltwriaeth o gryfderau a meysydd i'w gwella mewn gwasanaethau i blant yng Nghymru:

- Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (hyd yma mae'r adroddiad cryno ar gyfer Castell-nedd Port Talbot wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2023)
- Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant
- Adolygiad cyflym o'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag amddiffyn plant

Yn gywir

Gillian Baranski
**Prif Arolygydd**
Arolygiaeth Gofal Cymru